# Canllaw

Arweiniad i Swyddogion Canlyniadau i gefnogi'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig

bwrwpleidlais.cymru
vote.wales

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

bwrwpleidlais.cymru
vote.wales

# Arweiniad i Swyddogion Canlyniadau i gefnogi'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig

## 1. Diben yr arweiniad hwn

1.1 Cyhoeddwyd yr arweiniad hwn gan Fwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) Cymru i gynorthwyo Swyddogion Canlyniadau a'u timau i ddarparu gwybodaeth a gweithgareddau sy'n ofynnol er mwyn i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig weithio'n ddidrafferth.

1.2 Yn yr arweiniad hwn, defnyddir y gair 'rhaid' wrth gyfeirio at gyfarwyddyd neu ofyniad cyfreithiol penodol. Defnyddir y gair 'dylai' wrth gyfeirio at arfer da a argymhellir.

1.3 Defnyddir y gair 'chi' i gynrychioli Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a staff gwasanaethau etholiadol. Gan fod y trefniadau gweinyddol yn amrywio ledled Cymru, ni chrybwyllir Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn benodol. Pan fydd yr arweiniad yn berthnasol i rôl arbennig yn unig, nodir hyn yn benodol.

1.4 Cyhoeddir yr arweiniad hwn ar gyfer etholiadau'r Senedd yn unig ac mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth am swyddogaethau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig
- Manylion am y cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan y BRhE, gan gynnwys:
    - Y dogfennau y mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau eu hanfon at weithredwr y platfform i'w cyhoeddi arno
    - Y broses a'r fformat gofynnol ar gyfer cyflwyno'r dogfennau y mae'n ofynnol i chi eu darparu i weithredwr y platfform

### Cysylltu â Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru

Gallwch gysylltu â'r BRhE drwy anfon neges e-bost at - brhe@cdffc.llyw.cymru

## 2. Pwy sy'n gweithredu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig

2.1 Darparodd Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ar gyfer sefydlu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

2.2 Mae Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025 yn nodi mai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) – a sefydlwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) – yw gweithredwr y platfform.

## 3. Beth yw diben y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig?

3.1 Mae'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn darparu gwybodaeth gyfredol ar-lein, mewn un man i gynorthwyo etholwyr i gymryd rhan mewn etholiadau. Mae'n rhaid i'r platfform weithredu ar gyfer etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau Prif Gynghorau. Mae'r rheoliadau'n mynnu bod y BRhE yn cyhoeddi gwybodaeth benodol ar y platfform, gan gynnwys:

- hysbysiadau etholiad swyddogol a gyhoeddir gan Swyddogion Canlyniadau
- lleoliad gorsafoedd pleidleisio a phwy sydd â'r hawl i bleidleisio yno
- trefniadau hygyrchedd mewn gorsafoedd pleidleisio
- gwybodaeth am yr ymgeiswyr a'r pleidiau gwleidyddol cofrestredig sy'n sefyll mewn etholiadau
- cyfeiriadau etholiad pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr unigol
- canlyniadau etholiad

3.2 Caiff y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig hefyd gyhoeddi:

- gwybodaeth am y system etholiadol a'r broses bleidleisio o ran etholiadau penodedig, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i ddatganoli etholiadau penodedig
- disgrifiad ac esboniad o'r gwahanol lefelau llywodraeth sy'n bodoli yng Nghymru a'u cyfrifoldebau unigol
- y gwahanol etholiadau a gynhelir yng Nghymru a'r systemau pleidleisio a ddefnyddir ym mhob etholiad
- gwybodaeth am y trefniadau etholiadol a'r prosesau etholiadol ar gyfer etholiadau penodedig, gan gynnwys y canlynol ond nid yn gyfyngedig iddynt:
    - cymhwysedd i bleidleisio
    - cofrestru i bleidleisio, gan gynnwys cofrestru dienw a phleidleisio absennol
    - proses ymarferol pleidleisio, gan gynnwys gwybodaeth am sut, pryd a ble i bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio, drwy'r post neu drwy ddirprwy
    - hawliau hygyrchedd ar gyfer pleidleiswyr wrth bleidleisio
- manylion cyswllt ar gyfer timau etholiadol lleol sy'n cynorthwyo etholwyr ym mhob ardal o Gymru
- manylion cyswllt ar gyfer cynrychiolwyr etholedig pob etholaeth y Senedd neu

ward etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru

3.3 Mae'r gwasanaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## 4. Cyfarwyddiadau i helpu i gynnal y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig

4.1 O dan Adrannau 20B ac 20C Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ("Deddf 2024"), mae'r BRhE wedi rhoi cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ynglŷn ag arfer swyddogaethau swyddogion yn gysylltiedig ag etholiadau'r Senedd.

4.2 Mae copi o'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026 gall gael ei ddod yma.

4.3 Mae'r BRhE wedi cyhoeddi 6 chyfarwyddyd yn gysylltiedig â gofyniad y BRhE i gynnal y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig. Ni fydd yr holl wybodaeth a ddarparwch yn cael ei chyhoeddi ar y platfform, ond mae'n ofynnol er mwyn iddo weithio'n effeithiol ac yn ddiogel. Byddwch hefyd yn cyflawni rôl wrth hyrwyddo'r platfform i bleidleiswyr ac ymgeiswyr ac asiantiaid.

4.4 Nod y cyfarwyddiadau yw sicrhau bod y cynnwys a gyflwynir mewn fformat cyson. Mae hyn yn allweddol er mwyn i'r platfform weithredu'n ddidrafferth a bydd yn sicrhau ei fod:

- yn hygyrch
- yn rhwydd i bleidleiswyr chwilio arno
- yn ddiogel.

## 5. Diogelu Data ar gyfer y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig

### Pwy sy'n darparu'r data?

5.1 Gall rhywfaint o'r data ar gyfer gweithredu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig gael ei ddarparu gan y Swyddog Canlyniadau ar gyfer yr etholaeth yn unig – gwybodaeth am ymgeiswyr a chanlyniadau cyfrif oherwydd byddant yn gweinyddu'r broses enwebu ac yn datgan canlyniad yr etholiad.

5.2 Bydd pwy sy'n darparu rhywfaint o'r data arall yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir ynglŷn â sut mae'r data'n cael ei gasglu a'i rannu ar draws etholaeth. Mater i'r Swyddog Canlyniadau gytuno arno yw hwn ar draws ardaloedd yr awdurdod lleol o fewn

ei etholaeth. Fe allai data gael ei ddarparu gan ddirprwyon yn ardaloedd eraill yr awdurdod lleol yn yr etholaeth.

## Rheolwr data

5.3 Er bod y BRhE yn gyfrifol am gynnal y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig, mae wedi gofyn i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) weithredu fel rheolwr data ar ei ran. Y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r rheolwyr data o hyd ar gyfer yr holl ddata a gesglir ac a ddefnyddir i gynnal yr etholiad.

## Prosesu data

5.4 Mae'r rheoliadau'n mynnu bod y BRhE yn cyhoeddi gwybodaeth benodol ar y platfform. I wneud hyn, mae'n rhaid i CDFfC/y BRhE brosesu data a ddarperir gennych.

5.5 Pan fyddwch yn casglu data at eich defnydd eich hun ac yn casglu'r un data ar gyfer CDFfC, bydd y ddau barti'n parhau i fod yn rheolwyr data ar gyfer y data yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'r sail gyfreithiol i'r Swyddog Canlyniadau brosesu a rhannu data'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig gyda CDFfC yn dod o dan rwymedigaeth gyfreithiol, gan fod y cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan y BRhE yn ymdrin â rhannu data. Mae'r sail gyfreithiol i CDFfC brosesu'r data ar ran y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn dod o dan dasg gyhoeddus.

5.6 Dylech drafod y gofynion rhannu data newydd hyn gyda Swyddog Diogelu Data eich Cyngor. Efallai bydd angen i chi wneud gweithgareddau penodol o ganlyniad i'r gofynion rhannu data newydd; er enghraifft, fe ddylech:

- ddiweddaru neu ysgrifennu Asesiad o'r Effaith ar Brosesu Data
- diweddaru eich hysbysiad preifatrwydd gan roi gwybod i'r cyhoedd am y trefniadau rhannu data newydd
- adolygu cytundebau rhannu data

> Lluniwyd Protocol Rhannu Gwybodaeth i ffurfioli'r trefniadau rhannu data rhwng y Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a CDFfC/y BRhE. Dylai pob Swyddog Canlyniadau Etholaethol ei lofnodi cyn yr etholiad.

5.7 Er mwyn sicrhau bod eich prosesau sicrhau ansawdd yn gadarn, dylech ystyried ymuno â **Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI).** Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r offeryn hwn fel modd o helpu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i rannu data personol perthnasol a chyflawni cyfrifoldebau diogelu data. Datblygwyd y Protocol Rhannu Gwybodaeth gan ddefnyddio eu templed ac mae wedi mynd trwy eu proses sicrhau ansawdd.

# 6. Cyfarwyddyd 1 – Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau roi gwybodaeth am orsafoedd pleidleisio a hygyrchedd i'r Clwb Democratiaeth, a fydd yn prosesu'r data ar ran y BRhE

6.1 Er mwyn cynorthwyo pleidleiswyr i ddod o hyd i'w gorsaf bleidleisio, mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn:

- cyhoeddi'r hysbysiad ynghylch lleoliad gorsafoedd pleidleisio
- cyhoeddi'r wybodaeth hygyrchedd am bob gorsaf bleidleisio
- sicrhau y gellir chwilio'r holl wybodaeth berthnasol ar y platfform yn ôl etholaeth a chod post

6.2 Er mwyn casglu'r data sy'n ofynnol, rhoddodd y BRhE gyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau ddarparu data am orsafoedd pleidleisio pob etholaeth i'r Clwb Democratiaeth.

## Darparu data i'r Clwb Democratiaeth

6.3 Mae'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn defnyddio rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API) y Clwb Democratiaeth i ddarparu'r cyfleuster chwilio yn ôl cod post, gwybodaeth am orsafoedd pleidleisio a gwybodaeth am hygyrchedd.

6.4 Byddwch wedi rhoi eich data am orsafoedd pleidleisio i'r Clwb Democratiaeth ar adeg polau blaenorol. Ni fydd y broses ar gyfer darparu data am orsafoedd pleidleisio ar gyfer etholiad y Senedd yn wahanol.

6.5 Yr unig wahaniaeth fydd y gofyniad i ddarparu'r daenlen wedi'i chwblhau sy'n cynnwys y wybodaeth hygyrchedd ar gyfer eich gorsafoedd pleidleisio i'r Clwb Democratiaeth, hefyd.

6.6 Fe'ch anogwn i baratoi ac anfon y data cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i chi gadarnhau eich gorsafoedd pleidleisio cyn yr etholiad. Os oes modd, dylech ddarparu'r data hygyrchedd ar gyfer pob gorsaf bleidleisio ar yr un pryd ag allgludo'r data am orsafoedd pleidleisio o'r System Rheoli Etholiadau. Argymhellwn eich bod yn darparu'r ddwy set o ddata **cyn dydd Gwener 20 Chwefror 2026** er mwyn rhoi amser i'r Clwb Democratiaeth orffen y gwaith prosesu ychwanegol ar gyfer y wybodaeth hygyrchedd.

## Data am orsafoedd pleidleisio

6.7 Pan fyddwch wedi cadarnhau eich gorsafoedd pleidleisio ar gyfer yr etholiad, bydd angen i chi ddarparu'r data hwn wedi'i ddiweddaru i'r Clwb Democratiaeth. Dylech allgludo'r wybodaeth o'ch System Rheoli Etholiadau a'i lanlwytho i'r Clwb Democratiaeth: https://wheredoivote.co.uk/uploads. Mae cyfarwyddiadau ar gyfer allgludo'r data o'ch System Rheoli Etholiadau ar gael **yma**.

## Gwybodaeth hygyrchedd am orsafoedd pleidleisio

6.8 Mae Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025 yn mynnu ein bod yn cyhoeddi gwybodaeth hygyrchedd ar gyfer pob gorsaf bleidleisio. Rydym yn gweithio gyda'r Clwb Democratiaeth i gyflawni'r swyddogaeth hon o fewn eu hofferyn dod o hyd i orsaf bleidleisio.

6.9 Bydd y Clwb Democratiaeth yn prosesu'r data hwn trwy daenlen y mae'n rhaid i chi ei chwblhau a'i rhannu gyda nhw. Pan fyddwch yn cwblhau'r daenlen, bydd rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

| Y math o wybodaeth | Y data sy'n ofynnol |
|---|---|
| **Gwybodaeth sylfaenol am yr orsaf bleidleisio** (gallwch ei hallgludo o'ch System Rheoli Etholiadau) | • Cyfeiriad<br>• Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)<br>• Cod adnabod pob gorsaf bleidleisio |
| **Prif wybodaeth hygyrchedd** (ymatebion IE/NA yn unig) | Ai strwythur dros dro yw hwn?<br>A oes parcio gerllaw?<br>A oes parcio i'r anabl ar gael?<br>A oes mynediad gwastad i'r orsaf?<br>Os nad oes mynediad gwastad, a yw'r ramp dros dro?<br>A oes dolen glyw yn yr adeilad?<br>A oes tai bach cyhoeddus ar y safle? |
| **Gwybodaeth ychwanegol am hygyrchedd** | Ceir blychau testun rhydd i roi gwybodaeth ychwanegol am hygyrchedd yn ymwneud â'r canlynol:<br>• Cyrraedd yr orsaf<br>• Yn yr orsaf<br>Mae'r rhain yn ddewisol. Os byddwch yn dewis eu defnyddio:<br>• Canolbwyntiwch ar wybodaeth sy'n berthnasol i hygyrchedd pleidleiswyr<br>• Cadwch y cofnodion yn fyr ac yn gryno<br>• Darparwch y wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg, os oes modd<br>Gadewch y meysydd hyn yn wag os nad ydych yn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol. |

6.10 Fe ddylai'r rhan fwyaf o'r wybodaeth hon fod gennych chi eisoes o gynnal adolygiadau o fannau a gorsafoedd pleidleisio. Fodd bynnag, fe allech ddymuno dechrau'r gwaith hwn mewn da bryd cyn yr etholiad rhag ofn y bydd angen i chi wneud gwaith dilynol gyda gorsafoedd pleidleisio i ddeall eu trefniadau hygyrchedd.

## Hysbysu'r Clwb Democratiaeth am newidiadau i orsafoedd pleidleisio

6.11 Os byddwch yn gwneud unrhyw newidiadau hwyr i leoliadau gorsafoedd pleidleisio, dylech roi gwybod i'r Clwb Democratiaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei rhoi i bleidleiswyr ar y platfform.

6.12 Os na allwch ddarparu'r wybodaeth gyfredol am hygyrchedd ar yr adeg pan fydd gorsaf bleidleisio'n newid, dylech roi gwybod i'r Clwb Democratiaeth o hyd. Mae'n well bod pleidleiswyr yn mynd i'r orsaf bleidleisio iawn heb wybodaeth am hygyrchedd yn hytrach na mynd i'r orsaf bleidleisio anghywir.

6.13 Os byddwch yn gwneud newidiadau sylweddol i'r data am orsafoedd pleidleisio, er enghraifft os byddwch yn sylweddoli bod stryd wedi cael ei neilltuo i'r orsaf bleidleisio anghywir ac felly bydd angen i chi ei symud, cysylltwch â'r Clwb Democratiaeth cyn gynted â phosibl fel y gellir diweddaru'r data. Mae'n debygol y bydd angen allgludo data o'r System Rheoli Etholiadau o'r newydd.

## Crynodeb o'r data sydd i'w anfon at y Clwb Democratiaeth

| Data i'w anfon at y Clwb Democratiaeth | Fformat y ffeil | Sut i'w gyflwyno | Pryd i'w gyflwyno |
|---|---|---|---|
| Data am orsafoedd pleidleisio | Ffeil allgludo | Allgludo'r data o'ch System Rheoli Etholiadau i'r ddolen lanlwytho a ddarperir gan y Clwb Democratiaeth https://wheredoivote.co.uk/uploads | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i chi gadarnhau eich gorsafoedd pleidleisio a dim hwyrach na dydd Gwener 20 Chwefror 2026 |
| Data am hygyrchedd | Taenlen Excel | Anfon drwy e-bost at y Clwb Democratiaeth pollingstations@democracyclub.org.uk | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i chi gadarnhau eich gorsafoedd pleidleisio cyn yr etholiad |

# 7. Cyfarwyddyd 2 – Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau ddarparu i'r BRhE yr hysbysiadau ffurfiol sy'n ymwneud â'r etholiad y mae'n ofynnol i Swyddogion Canlyniadau eu cyhoeddi yn ôl Atodlen 5 Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025.

7.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn datgan bod rhaid i'r BRhE gyhoeddi ar y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yr hysbysiadau canlynol a gyhoeddwyd gan Swyddogion Canlyniadau ar gyfer pob etholaeth:

- Hysbysiad o Etholiad
- Datganiad ynghylch y Pleidiau a'r Unigolion a Enwebwyd
- Hysbysiad o Bôl
- Hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio a disgrifiad o'r pleidleiswyr sydd â'r hawl i bleidleisio yno
- Datganiad canlyniadau

Er mwyn gwneud hyn, mae'r BRhE wedi rhoi cyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ddarparu copïau o'r hysbysiadau.

7.2 Bydd y BRhE yn ailgyhoeddi'r hysbysiadau ar y platfform. Darperir yr hysbysiadau hyn ar wahân i ddarparu data penodol sy'n ofynnol gan y BRhE mewn cyfarwyddiadau eraill, ac yn ychwanegol ato. Y rheswm am hyn yw oherwydd pan ofynnir am ddata sy'n gorgyffwrdd â hysbysiadau, bwriedir i'r platfform grynhoi'r data hwn a'i atgynhyrchu mewn fformat mwy hygyrch ar y platfform. Bydd hyn yn ychwanegol at gyhoeddi'r hysbysiadau gwirioneddol ar y platfform.

## Sut dylid darparu'r copïau o hysbysiadau?

7.3 Mae'n rhaid i'r hysbysiadau gael eu hanfon at y BRhE drwy e-bost. Anfonwch gopïau o'r hysbysiadau at **brhe@cdffc.llyw.cymru**. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y byddwch wedi cyhoeddi pob hysbysiad eich hun a dim hwyrach na 24 awr ar ôl i chi gyhoeddi'r hysbysiad eich hun.

7.4 Rydym yn disgwyl i'r hysbysiadau gael eu darparu mewn fformat PDF neu Word – os ydych yn bwriadu cyhoeddi eich hysbysiadau mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r BRhE cyn yr etholiad.

7.5 Os byddwch yn diwygio neu'n ailgyhoeddi unrhyw un o'r hysbysiadau hyn ar ôl i chi eu cyflwyno i'r BRhE, mae'n rhaid i chi anfon copi o'r hysbysiad wedi'i ddiweddaru at

y BRhE drwy e-bost cyn gynted â phosibl er mwyn i'r BRhE allu diweddaru'r hysbysiad cyhoeddedig ar y platfform.

## Crynodeb o'r copïau o hysbysiadau sydd i'w darparu

<table>
<tr><th>Enw'r hysbysiad swyddogol</th><th>Fformat y ffeil</th><th>Sut i'w gyflwyno</th><th>Pryd i'w gyflwyno</th></tr>
<tr><td>Hysbysiad o Etholiad</td><td rowspan="5">PDF neu ddogfen Word</td><td rowspan="5">Anfon yr hysbysiad at y BRhE drwy e-bost<br>Cyfeiriad e-bost: brhe@cdffc.llyw.cymru</td><td rowspan="5">Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi<br><br>Dim hwyrach na 24 awr ar ôl cyhoeddi</td></tr>
<tr><td>Datganiad ynghylch y Pleidiau a'r Unigolion a Enwebwyd</td></tr>
<tr><td>Hysbysiad o Bôl</td></tr>
<tr><td>Hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio a disgrifiad o'r pleidleiswyr sydd â'r hawl i bleidleisio yno</td></tr>
<tr><td>Datganiad canlyniadau</td></tr>
</table>

# 8. Cyfarwyddyd 3 – Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol sicrhau bod ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad yn derbyn y 'wybodaeth ofynnol' am y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig

8.1 Mae Swyddogion Canlyniadau Etholaethau yn cysylltu'n uniongyrchol â phleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr unigol ac asiantiaid etholiad yn ystod y broses etholiad, a nhw sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwybodaeth am y platfform.

8.2 Mae'r BRhE wedi cyhoeddi cyfarwyddyd bod rhaid i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol sicrhau bod ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad yn derbyn y 'wybodaeth ofynnol' am y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn ystod y broses enwebu.

## Beth yw'r wybodaeth ofynnol?

8.3 Nodyn byr gan y BRhE yw'r 'wybodaeth ofynnol' sy'n esbonio:

- sut mae'r platfform yn gweithredu
- y broses ar gyfer cyflwyno cyfeiriadau etholiad
- y trefniadau rhannu data rhwng Swyddogion Canlyniadau a'r BRhE.

8.4 Mae'n nodi'r wefan y dylai pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr unigol ac asiantiaid etholiad ei defnyddio i gael arweiniad penodol ar y broses ar gyfer cyflwyno cyfeiriadau etholiad.

## Pryd i ddarparu'r wybodaeth ofynnol i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad

8.5 Bydd angen i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr unigol ac asiantiaid etholiad gael y wybodaeth hon ar ôl i'w papur enwebu gael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn unig.

8.6 Mae'n rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth ofynnol dim hwyrach na 24 awr ar ôl i'r papur enwebu gael ei gyflwyno. Mae'n rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth ofynnol i'r unigolyn a gyflwynodd y papur enwebu.

## Fformat y wybodaeth ofynnol

8.7 Fe allwch ddarparu'r wybodaeth ofynnol ar ffurf copi caled neu fel dogfen mewn neges e-bost, pa un bynnag sy'n fwyaf cyfleus i chi. Fe allai hyn ddibynnu ar sut y cyflwynwyd y papur enwebu i chi.

8.8 Os byddwch yn darparu gwybodaeth i'r rhai sy'n sefyll ar gyfer etholiad ar eich gwefan, fe ddylech gyhoeddi'r 'wybodaeth ofynnol' yno, hefyd. Fodd bynnag, nid yw

cyhoeddi'r wybodaeth ofynnol ar eich gwefan yn unig yn ddigonol i fodloni'r cyfarwyddyd i gyhoeddi'r wybodaeth ofynnol.

## Crynodeb o'r wybodaeth ofynnol sydd i'w darparu i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad

| Y math o wybodaeth | Fformat y wybodaeth | Sut | Pryd |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid yn derbyn y 'wybodaeth ofynnol' | Copi caled neu ddogfen mewn neges e-bost o'r 'wybodaeth ofynnol' | Â llaw neu drwy neges e-bost | Ar ôl i'w enwebiad gael ei ddanfon yn ffurfiol (â llaw neu'n electronig)<br><br>Dim hwyrach na 24 awr ar ôl i'r papur enwebu gael ei ddanfon yn ffurfiol |

# 9. Cyfarwyddyd 4 – Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol roi data am ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad i'r BRhE at ddibenion y system cyflwyno cyfeiriadau etholiad ac ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am ymgeiswyr

9.1 Mae angen i'r BRhE gael data am ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad er mwyn iddo allu gwneud y canlynol:

- gwirio bod y rhai sy'n cyflwyno cyfeiriadau etholiad wedi'u hawdurdodi i wneud hynny
- sicrhau bod cyfeiriadau etholiad yn cael eu cyflwyno mewn modd diogel
- cyhoeddi'r wybodaeth a gynhwysir yn y Datganiad o Bleidiau ac Unigolion a Enwebwyd mewn modd hygyrch y gellir ei chwilio yn ôl cod post
- cyhoeddi'r cyfeiriadau etholiad wrth ymyl yr ymgeisydd perthnasol/y blaid wleidyddol berthnasol sy'n sefyll yn yr etholiad

9.2 Mae'r BRhE wedi cyhoeddi cyfarwyddyd bod rhaid i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, yn ystod y broses enwebu ac ar ôl cyhoeddi'r Datganiad o Bleidiau ac Unigolion a Enwebwyd, ddarparu data am ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad i gefnogi'r broses a ddisgrifir uchod.

## Setiau data A a B ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad

9.3 Mae'r cyfarwyddyd yn disgrifio dwy set ddata sy'n gorgyffwrdd ond sy'n wahanol i'w gilydd – set ddata A a set ddata B. Mae set ddata A yn cynnwys data i gefnogi'r broses ar gyfer cyflwyno cyfeiriadau etholiad ar-lein ac mae set ddata B yn cynnwys data i atgynhyrchu'r Datganiad o Bleidiau ac Unigolion a Enwebwyd ar y platfform. Bydd y setiau data'n cynnwys y data canlynol:

| SET DDATA A – i gefnogi'r broses ar gyfer cyflwyno cyfeiriadau etholiad ar-lein | |
|---|---|
| **Ar gyfer ymgeiswyr rhestr plaid** | **Ar gyfer ymgeiswyr unigol** |
| Enw'r blaid neu ddisgrifiad o'r blaid gofrestredig<br><br>Ar gyfer pob ymgeisydd rhestr plaid:<br>- Enw llawn neu enw a ddefnyddir fel arfer (pan fydd wedi'i ddarparu)<br>- Cyfeiriad e-bost (pan fydd wedi'i ddarparu) | Disgrifiad – Annibynnol neu wedi'i adael yn wag<br><br>- Enw llawn neu enw a ddefnyddir fel arfer (pan fydd wedi'i ddarparu)<br>- Cyfeiriad e-bost (pan fydd wedi'i ddarparu) |

| | |
|---|---|
| Enw'r asiant etholiad<br><br>Cyfeiriad e-bost yr asiant etholiad (pan fydd wedi'i ddarparu)<br><br>Dyfeisiau adnabod eraill y system, fel y bo'n ofynnol | Enw'r asiant etholiad<br><br>Cyfeiriad e-bost yr asiant etholiad (pan fydd wedi'i ddarparu)<br><br>Dyfeisiau adnabod eraill y system, fel y bo'n ofynnol |
| SET DDATA B – data i'w gyhoeddi ar y platfform | |
| **Ar gyfer ymgeiswyr rhestr plaid** | **Ar gyfer ymgeiswyr unigol** |
| - Enw'r blaid neu ddisgrifiad o'r blaid gofrestredig<br>- Arwyddlun y blaid gofrestredig<br><br>Ar gyfer pob ymgeisydd rhestr plaid:<br>- Enw llawn neu enw a ddefnyddir fel arfer (pan fydd wedi'i ddarparu)<br>- Cyfeiriad cartref neu ardal berthnasol os na roddir cyfeiriad cartref<br>- Datganiad ynghylch aelodaeth â phlaid (pan fydd wedi'i ddarparu)<br><br>Plaid / ymgeisydd annilys/wedi'i thynnu/dynnu'n ôl: fel yr uchod gyda'r rheswm dros annilysrwydd/tynnu'n ôl<br><br>Dyfeisiau adnabod eraill y system, fel y bo'n ofynnol | - Disgrifiad – Annibynnol neu wedi'i adael yn wag<br><br>- Enw llawn yr ymgeisydd neu enw a ddefnyddir fel arfer (pan fydd wedi'i ddarparu)<br>- Cyfeiriad cartref neu ardal berthnasol os na roddir cyfeiriad cartref<br>- Datganiad ynghylch aelodaeth â phlaid (pan fydd wedi'i ddarparu)<br><br>Plaid / ymgeisydd annilys/wedi'i thynnu/dynnu'n ôl: fel yr uchod gyda'r rheswm dros annilysrwydd/tynnu'n ôl<br><br>Dyfeisiau adnabod eraill y system, fel y bo'n ofynnol |

9.4 Yn ymarferol, dim ond un ffeil y bydd angen i chi ei hallgludo sy'n cynnwys setiau data A a B. Diben hyn yw gwneud y broses o gyflenwi'r data mor rhwydd â phosibl i chi.

9.5 Yn ystod y cyfnod enwebu, bydd y platfform yn cadw/defnyddio'r data sy'n ofynnol ar gyfer y broses cyfeiriadau etholiad a geir yn set ddata A yn unig. Bydd hyn yn galluogi ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad i gyflwyno eu cyfeiriadau etholiad i'r BRhE o ddau ddiwrnod ar ôl i chi gyhoeddi'ch Hysbysiad o Etholiad.

9.6 Pan fyddwch wedi darparu'r set derfynol o ddata ymgeiswyr ac asiantiaid, bydd setiau data A a B yn cael eu defnyddio gan y platfform.

## Allgludo data am ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn ystod y cyfnod enwebu

9.7 **Mae'n rhaid i chi lanlwytho ffeil allgludo data am ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad ar ddiwedd pob diwrnod gwaith yn ystod y cyfnod enwebu** (h.y. y diwrnodau

pan ellir danfon papurau enwebu). Bydd hyn yn galluogi'r platfform i ddal y data mwyaf cyfredol a fydd yn caniatáu i ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad ddechrau cyflwyno eu cyfeiriadau etholiad cyn gynted â phosibl.

9.8 Mae'n rhaid i chi allforio'r ffeil data am ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad o'ch System Rheoli Etholiadau. Rydym wedi gweithio gyda'ch cyflenwyr System Rheoli Etholiadau i ddylunio ffeil allgludo benodol sy'n ystyried gofynion set ddata A a set ddata B. Byddem yn disgwyl i'ch cyflenwr System Rheoli Etholiadau ddarparu cyfarwyddiadau penodol ar sut i allgludo'r data.

9.9 Bydd angen i chi lanlwytho'r ffeil allgludo i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig. Bydd pob Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn cael dolen i ardal lanlwytho'r platfform. Rydych eisoes wedi gweithio gyda'r BRhE i enwi hyd at ddau ddefnyddiwr a fydd yn gallu mewngofnodi i'r ardal hon i ddarparu'r data. Os bydd unrhyw broblem gyda'r defnyddwyr hyn, cysylltwch â'r BRhE - **brhe@cdffc.llyw.cymru**

9.10 Pan fyddwch yn lanlwytho'r data i'r platfform yn ystod y broses enwebu:

- mae'n rhaid i chi farcio'r ffeil fel un ddrafft yn y broses lanlwytho
- mae'n rhaid i chi lanlwytho ffeil allgludo newydd bob dydd, p'un a ydych wedi derbyn papurau enwebu ychwanegol ai peidio
- rhoddir gwybod i chi am unrhyw wallau yn y data (bydd y rhain yn cynnwys data gorfodol sydd ar goll, a rhywfaint o ddilysu data sylfaenol) – bydd angen i chi gywiro'r gwallau hyn yn eich System Rheoli Etholiadau ac allgludo'r data eto
- byddwch yn cael cyfle i adolygu'r data rydych wedi'i lanlwytho – gwnewch yn siŵr fod y data'n gywir, os gwelwch yn dda
- bydd y ffeil ddata ddiweddaraf bob amser yn disodli'r ffeil flaenorol a lanlwythwyd gennych.

9.11 Os byddwch yn sylweddoli bod camgymeriad yn y ffeil ddata ar ôl i chi ei chyflwyno, fe allwch lanlwytho ffeil allgludo arall oherwydd bydd yn disodli'r ffeil flaenorol.

9.12 Cofiwch mai diben y data a ddefnyddir yn ystod y broses enwebu yw cefnogi'r broses cyflwyno cyfeiriadau etholiad ar-lein yn unig. Ni fydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi.

## Casglu cyfeiriadau e-bost ymgeiswyr ac asiantiaid

Er bod darparu cyfeiriad e-bost yn ddewisol ar gyfer enwebiadau, mae'n rhaid i'r ymgeisydd/ymgeiswyr a/neu'r asiant etholiad roi eu cyfeiriad e-bost i chi os ydynt eisiau cyflwyno eu cyfeiriad etholiad gan ddefnyddio'r gwasanaeth cyflwyno ar-lein. Mae hyn oherwydd y prosesau diogelwch sydd wedi'u hymgorffori yn y system. Dylech annog pob ymgeisydd a'u hasiantiaid etholiad i ddarparu eu cyfeiriad e-bost i chi ac esbonio'r rhesymau pam rydych yn gofyn amdano:

- fel y gallwch gysylltu â nhw'n rhwydd os bydd angen yn ystod cyfnod yr etholiad
- ei fod yn angenrheidiol pan fyddant yn cyflwyno eu cyfeiriad etholiad i'r platfform i'w gyhoeddi ar-lein.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi darparu adnodd – taflen gyswllt ymgeiswyr ar gyfer rhestrau pleidiau ac ymgeiswyr unigol – y gallwch ofyn i ymgeiswyr/asiantiaid etholiad ei chwblhau.

Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cofnodi unrhyw gyfeiriadau e-bost a gasglwch yn eich System Rheoli Etholiadau fel y byddant yn ymddangos yn y data allgludo.

Dylech bwysleisio pwysigrwydd darparu cyfeiriad e-bost yn eich sesiwn friffio ar gyfer pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr unigol ac asiantiaid etholiad. Nid yw cyfeiriadau e-bost yn cael eu cyhoeddi ar y platfform. Fe'u defnyddir ar gyfer gwiriadau diogelwch yn unig pan fydd ymgeisydd/ymgeiswyr ac asiantiaid yn cyflwyno cyfeiriadau etholiad.

Mae'r BRhE wedi darparu sleidiau i'w defnyddio yn eich sesiynau briffio am bwysigrwydd darparu cyfeiriad e-bost ac sy'n esbonio os na fyddant yn ei roi i chi, na fyddant yn gallu cyflwyno eu cyfeiriad etholiad ar-lein i'w gyhoeddi ar y platfform.

Cofiwch wirio'ch Hysbysiad Preifatrwydd a'i ddiweddaru, os bydd angen, i sicrhau bod ymgeiswyr ac asiantiaid yn ymwybodol o gasglu, defnyddio a rhannu eu cyfeiriadau e-bost.

## Darparu'r data o'r datganiad o bleidiau ac unigolion a enwebwyd i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig

9.13 **Mae'n rhaid i chi lanlwytho ffeil allgludo data derfynol am ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod enwebu / cyhoeddi'r Datganiad o Bleidiau ac Unigolion a Enwebwyd.** Defnyddir y data hwn i ail-greu'r Datganiad o Bleidiau ac Unigolion a Enwebwyd ar y wefan mewn fformat hygyrch, ond hefyd i ddarparu'r data terfynol i gefnogi'r broses cyflwyno cyfeiriadau etholiad ar-lein.

9.14 Pan fyddwch yn lanlwytho'r data i'r platfform ar ôl diwedd y cyfnod enwebu:

- mae'n RHAID eich bod wedi cynnal eich gwiriadau sicrhau ansawdd ar gyhoeddi'r Datganiad o Bleidiau ac Unigolion a Enwebwyd ac anfon data papur pleidleisio cyn allgludo'r data
- byddwch yn darparu'r data hwn yn yr un ffordd â'r ffeil ddyddiol yn ystod y cyfnod enwebu
- mae'n rhaid i chi farcio'r ffeil fel un DERFYNOL yn y broses lanlwytho
- rhoddir gwybod i chi am unrhyw wallau yn y data (bydd y rhain yn cynnwys data gorfodol sydd ar goll, a rhywfaint o ddilysu data sylfaenol) – bydd angen i chi gywiro'r gwallau hyn yn eich System Rheoli Etholiadau ac allgludo'r data eto
- byddwch yn cael cyfle i adolygu'r data rydych wedi'i lanlwytho – ar y sgrin neu drwy argraffu'r dudalen – gwnewch yn siŵr fod y data'n gywir, os gwelwch yn dda.

9.15 Os byddwch yn sylweddoli bod camgymeriad yn y ffeil ddata ar ôl i chi ei chyflwyno, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r BRhE - **brhe@cdffc.llyw.cymru** cyn gynted â phosibl fel y gellir cywiro'r data.

9.16 Cofiwch y bydd rhywfaint o'r data hwn yn cael ei gyhoeddi (ond nid yr eitemau data a geir yn set ddata A yn unig, fel cyfeiriadau e-bost). Mae'n rhaid i'r data hwn fod yn gywir fel bod y platfform yn cyhoeddi'r wybodaeth gywir am bwy sy'n sefyll yn yr etholiad.

## Crynodeb o'r data am ymgeiswyr ac asiantiaid sydd i'w ddarparu i'r BRhE

| Y math o wybodaeth | Fformat y wybodaeth | Sut | Pryd |
|---|---|---|---|
| Set ddata A – gwybodaeth sylfaenol am ymgeiswyr ac asiantiaid | Allgludo ffeil CSV o'r System Rheoli Etholiadau | Lanlwytho i'r platfform | Bob dydd yn ystod y cyfnod enwebu a'r fersiwn derfynol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r Datganiad o Bleidiau ac Unigolion a Enwebwyd |
| Set ddata B – gwybodaeth i gyhoeddi'r Datganiad o Bleidiau ac Unigolion a Enwebwyd | Allgludo ffeil CSV o'r System Rheoli Etholiadau | Lanlwytho i'r platfform | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r Datganiad o Bleidiau ac Unigolion a Enwebwyd |

# 10. Cyfarwyddyd 5 – Rhoi cyhoeddusrwydd i'r platfform

10.1 Bydd y BRhE yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r platfform gyda'r prif ddiben o gynyddu ymwybyddiaeth pleidleiswyr bod y platfform ar gael ac yno i ddarparu gwybodaeth iddynt am yr etholiad. Ail ddiben gweithgarwch cyhoeddusrwydd y BRhE yw cynyddu ymwybyddiaeth o'r platfform a'r cyfeiriadau etholiad ymhlith yr holl bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr unigol sy'n sefyll ar gyfer yr etholiad.

10.2 Mae Swyddogion Canlyniadau yn cyflawni rôl allweddol wrth gynyddu ymwybyddiaeth o'r platfform hefyd oherwydd eu bod yn cysylltu'n uniongyrchol â phleidleiswyr, ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad yn ystod etholiad.

10.3 Er mwyn helpu i roi cyhoeddusrwydd i'r platfform, mae'r BRhE wedi rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol i Swyddogion Canlyniadau:

- mae'n rhaid iddynt gynnwys geiriad penodol ar yr holl gardiau pleidleisio
- mae'n rhaid iddynt hyrwyddo dolen i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig ar wefan pob cyngor
- mae'n rhaid iddynt sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu â phleidleiswyr a gynhelir gan y Swyddog Canlyniadau yn hyrwyddo'r platfform

## Cynnwys geiriad penodol ar yr holl gardiau pleidleisio

10.4 Rydych yn cysylltu'n uniongyrchol â phob etholydd cymwys oherwydd bod rhaid i chi anfon cerdyn pleidleisio atynt. Mae'r BRhE wedi cyfarwyddo bod yr holl gardiau pleidleisio yn cynnwys geiriad penodol ynglŷn â'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

10.5 Mae'n rhaid cynnwys y geiriad canlynol ar y cardiau pleidleisio a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau -

| |
|---|
| **I gael gwybodaeth am y pleidiau a'r ymgeiswyr sy'n sefyll yn eich ardal chi, ewch i www.bwrwpleidlais.cymru**<br><br>**For information of parties and candidates standing in your area, go to www.vote.wales** |

10.6 Nid yw'r BRhE yn cyfarwyddo ble mae'n rhaid i'r geiriad hwn ymddangos ar y cerdyn pleidleisio – mater i chi benderfynu arno yw hwnnw. Cewch hefyd addasu'r ffont, y maint, a'r gosodiad i weddu orau i fformat dylunio eich cerdyn pleidleisio. Cewch hefyd gynnwys logo'r wefan ar eich cerdyn pleidleisio, ond mae hyn yn ddewisol.

## Cyhoeddi dolen i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig ar wefannau Cynghorau

10.7 Mae'r BRhE wedi cyfarwyddo bod rhaid i ddolen i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig gael ei chyhoeddi ar wefan pob Cyngor ochr yn ochr â gwybodaeth arall maen nhw'n ei chyhoeddi am yr etholiad.

10.8 Mae'n rhaid i'r ddolen gael ei chyhoeddi ar y wefan cyn i'r Hysbysiad o Etholiad gael ei gyhoeddi, neu ar yr un pryd, ac fe ddylai hyrwyddo'r platfform i bleidleiswyr fel modd o gael gwybodaeth am yr etholiad sydd i ddod.

## Cynnwys gwybodaeth am y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn eich gweithgarwch ymgysylltu â phleidleiswyr

10.9 Mae'r BRhE wedi cyfarwyddo bod rhaid i chi hyrwyddo'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn y gweithgareddau ymgysylltu â phleidleiswyr a gynhaliwch.

10.10 Er enghraifft, os ydych yn defnyddio postiadau cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r etholiad, fe ddylech hyrwyddo'r ddolen i'r platfform. Bydd y BRhE yn darparu deunyddiau cyhoeddusrwydd, gan gynnwys asedau cyfryngau cymdeithasol, i gynorthwyo Swyddogion Canlyniadau â'u gweithgarwch ymgysylltu.

## Hyrwyddo'r platfform ymhlith pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid

10.11 Mae cyfarwyddyd 3 eisoes yn mynnu bod Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn darparu'r wybodaeth ofynnol i'r ymgeisydd/ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad yn ystod y broses enwebu. Byddem yn annog Swyddogion Canlyniadau i wneud y gweithgareddau canlynol hefyd i helpu i hyrwyddo ymhellach:

- Os byddwch yn darparu gwybodaeth i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid ar eich gwefan, fe allech gynnwys rhywfaint o wybodaeth am gyflwyno eu cyfeiriadau etholiad i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.
- Dylech gynnwys y sleidiau a baratowyd gan y BRhE sy'n amlygu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn eich sesiwn friffio ar sl
- Os byddwch yn rhoi diweddariadau e-bost i'ch ymgeiswyr a'ch asiantiaid yn ystod amserlen yr etholiad, fe ddylech amlygu'r dyddiadau cau ar gyfer cyhoeddi eu cyfeiriadau etholiad a'u hatgoffa ohonynt.

## Crynodeb o weithgareddau i helpu i hyrwyddo'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig

| Y math o weithgarwch | Sut | Pryd |
|---|---|---|
| Cynnwys geiriad | Mae'n rhaid i'r geiriad canlynol gael ei gynnwys | Fel sy'n ofynnol i |

| | | |
|---|---|---|
| y platfform ar gardiau pleidleisio | ar y cardiau pleidleisio a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau:<br><br>**For information of parties and candidates standing in your area, go to www.vote.wales**<br><br>**I gael gwybodaeth am y pleidiau a'r ymgeiswyr sy'n sefyll yn eich ardal chi, ewch i www.bwrwpleidlais.cymru** | gymeradwyo cardiau pleidleisio |
| Cynnwys dolen i'r platfform ar wefan y Cyngor | Mae'n rhaid i'r ddolen i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig gael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor ochr yn ochr â gwybodaeth arall y mae'n ei chyhoeddi am yr etholiad:<br>**www.vote.wales**<br>**www.bwrwpleidlais.cymru** | Cyn i'r Hysbysiad o Etholiad gael ei gyhoeddi neu ar yr un pryd. |
| Cynnwys gwybodaeth am y platfform mewn gweithgareddau ymgysylltu eraill yn ymwneud â'r etholiad | Wrth gynnal gweithgareddau ymgysylltu â phleidleiswyr, fel postiadau cyfryngau cymdeithasol, dylai'r Swyddog Canlyniadau hyrwyddo'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig, hefyd. | Drwy gydol yr etholiad |
| Hyrwyddo'r broses cyfeiriadau etholiad ymhlith ymgeiswyr ac asiantiaid | Dylech:<br>• ddarparu gwybodaeth ar eich gwefan<br>• cynnwys y sleidiau a baratowyd gan y BRhE yn eich sesiwn friffio ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid<br>• cynnwys nodyn atgoffa am y dyddiadau cau ar gyfer cyfeiriadau etholiad mewn cyfathrebiadau | Drwy gydol cyfnod yr etholiad |

# 11. Cyfarwyddyd 6 – Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ddarparu eu canlyniadau etholiad

11.1 Mae'n ofynnol i'r BRhE gyhoeddi canlyniadau etholiad y Senedd ar y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

11.2 Er mwyn gwneud hyn, mae'r BRhE wedi rhoi cyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ddarparu'r data ar gyfer canlyniadau eu hetholaeth. Mae hyn yn ychwanegol at ddarparu'r hysbysiad Datganiad Canlyniadau, fel sy'n ofynnol gan gyfarwyddyd 2.

## Erbyn pryd y mae'n rhaid darparu'r data canlyniadau etholiad?

11.3 Mae'n rhaid i chi ddarparu'r data canlyniadau etholiad i'r BRhE ar yr un diwrnod y caiff canlyniad yr etholiad ei ddatgan er mwyn i'r platfform adlewyrchu canlyniadau'r etholiad cyn belled ag y bo'n ymarferol, mewn amser real.

11.4 Mewn rhai amgylchiadau, fe allai'r dyddiad cau ar gyfer darparu'r wybodaeth hon gael ei ymestyn hyd at 3 diwrnod calendr o'r dyddiad y datganwyd y canlyniadau, ond mae'n rhaid i'r BRhE gytuno ar hyn o flaen llaw. Cysylltwch â'r BRhE cyn yr etholiad os oes arnoch angen mwy o amser i ddarparu'r data canlyniadau cyfrif.

## Y broses ar gyfer darparu data canlyniadau etholiad i'r BRhE

11.5 Byddwch yn cofnodi'ch data canlyniadau etholiad ar y platfform â llaw. Y data sy'n ofynnol yw'r wybodaeth y byddwch yn ei chyhoeddi ar y Datganiad Canlyniadau ar gyfer yr etholaeth.

11.6 Ar ôl mewngofnodi i'r platfform, bydd y system yn gofyn cyfres o gwestiynau i chi i gasglu'r canlyniadau etholiad ar gyfer eich etholaeth. Bydd y platfform yn darparu'r data plaid wleidyddol ac ymgeisydd unigol ar gyfer eich etholaeth i'ch helpu i gwblhau'r broses. Byddwch yn cofnodi:

- cyfanswm y pleidleisiau dilys a gafodd eu bwrw
- cyfanswm nifer y pleidleisiau dros bob plaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol
- yr ymgeiswyr y barnwyd eu bod wedi'u hethol

11.7 Nid yw'n ofynnol i chi gofnodi nifer y pleidleisiau a wrthodwyd.

11.8 Pan fyddwch yn cofnodi'r data cyfrif ar y platfform, dylech wneud y canlynol cyn cyflwyno'ch ymateb:

- mae'n RHAID i chi wirio'r cyfansymiau a gofnodwyd gennych ar y platfform cyn eu cyflwyno er mwyn sylwi ar unrhyw wallau teipio

- byddwch yn cael cyfle i adolygu'r data rydych wedi'i lanlwytho – ar y sgrin neu drwy argraffu'r dudalen – gwnewch yn siŵr fod y data'n gywir, os gwelwch yn dda.

11.9 Os byddwch yn canfod unrhyw gamgymeriadau ar ôl lanlwytho'r data canlyniadau etholiad, bydd angen i chi gysylltu â'r BRhE cyn gynted â phosibl - brhe@cdffc.llyw.cymru fel y gellir cywiro'r data.

## Crynodeb o'r data cyfrif sydd i'w ddarparu

| Beth | Fformat y wybodaeth | Sut | Pryd |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y pleidleisiau dilys a gafodd eu bwrw<br><br>Cyfanswm nifer y pleidleisiau dros bob plaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol<br><br>Yr ymgeiswyr y barnwyd eu bod wedi'u hethol | Ffurflen we | Cwblhau a lanlwytho i'r platfform | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl datgan y canlyniadau |